

I'w ryddhau 00:01 dydd Mercher, 31 Mawrth 2021

SURVEY II

Survey II: Deg artist ar ddechrau eu gyrfa wedi'u henwebu gan artistiaid blaenllaw i greu comisiynau newydd ar gyfer arddangosfa deithiol y DU 2021-2022

Bydd arddangosfa partneriaeth genedlaethol dan arweiniad Jerwood Arts yn dod â gwaith newydd at ei gilydd gan ddeg artist ar ddechrau eu gyrfa, y mae eu hymarfer yn cynnwys ystod eang o ddisgyblaethau o ffotograffiaeth a delweddau symudol i gerflunwaith a gosodiadau sain ar raddfa fawr. Bydd yr arddangosfa yn lansio bellach yn g39 yng Nghaerdydd (2 Gorffennaf – 11 Medi 2021), gan ddod â'r cyflwyniad sylweddol hwn o waith gan rai o'r artistiaid gweithredol mwyaf cyffrous ar ddechrau eu gyrfa i brifddinas Cymru ar gyfer ei agor.

Disgwylir i lawer o'r artistiaid ymateb i'r amseroedd rydym yn byw ynddynt ar hyn o bryd, gyda'r gweithiau'n cael eu cychwyn yn ystod 2020 a oedd yn gythryblus a phryderus a'u datblygu ymhellach yn ystod dechrau 2021 oedd yr un mor anodd.



Rebecca Moss, *Home Improvement*, 2021. Llun llonydd o'r ffilm. Drwy garedigrwydd yr artist.

Yr artistiaid sy'n arddangos ar gyfer *Survey II* yw:

Saelia Aparicio a enwebwyd gan Jonathan Baldock **Tereza Červeňová** a enwebwyd gan Joanna Pietrowska **Sadé Mica** a enwebwyd gan Emily Speed a Jade Montserrat **Rebecca Moss** a enwebwyd gan Wood a Harrison **Cinzia Mutigli** a enwebwyd gan Sean Edwards **Katarzyna Perlak** a enwebwyd gan Zadie Xa **Shenece Oretha** a enwebwyd gan Zadie Xa **Tako Taal** a enwebwyd gan Jamie Crewe

Nicolaas Van de Lande a enwebwyd gan Tai Shani **Angharad Williams** a enwebwyd gan Heather Phillipson

Wedi'i sefydlu gan Jerwood Arts yn 2018, Survey II yw ail gynhyrchiad arddangosfa grŵp sy'n cyflwyno gwaith newydd gan rai o'r artistiaid mwyaf rhagorol ar gamau cyntaf eu gyrfaedd yn y DU, gan roi cipolwg unigryw ar bryderon a dulliau artistig cyfredol. Mae pob artist wedi cael ei enwebu gan artist blaenllaw yn y DU – gan gynnwys rai sydd wedi derbyn gwobrau megis Gwobr Turner ac wedi cynrychioli un o genhedloedd Prydain yn Biennale Venis, a llawer a oedd yn rhan o British Art Show 9 eleni – i gymryd rhan yn yr arddangosfa.

Dywedodd **Harriet Cooper, Pennaeth y Celfyddydau Gweledol, Jerwood Arts**, "*Mae Survey II yn dod â rhai o'r artistiaid mwyaf ysgogol ar gamau cyntaf eu gyrfaedd sy'n gweithio yn y DU heddiw at ei gilydd. Wedi'u henwebu gan artistiaid blaenllaw ac wedi'u dewis yng nghramau cynnar cyfyngiadau symud y DU y flwyddyn ddiwethaf, mae eu hymarferion a dulliau amrywiol ar gyfer gwneud celf yn ein hatgoffa o bwysigrwydd lleisiau artistiaid wrth ymateb i'r byd sy'n newid o'n cwmpas. Mae gofyn i artistiaid ystyried pwy y dylai'r arddangosfa hon gynnwys hefyd yn pwysleisio ein huchelgeisiau i roi artistiaid wrth wraidd ein rhaglen bob amser. Rwyf yn falch ein bod yn gallu cefnogi'r artistiaid hyn i roi bywyd i Survey II.*"

Mae cynnal y lansiad yng Nghaerdydd yn cadarnhau ymrwymiad Jerwood Arts i ddatblygiad y celfyddydau gweledol ledled y DU, gan adeiladu rhwydweithiau gydag artistiaid ac ar eu cyfer ledled y wlad.

Dywedodd **Anthony Shapland, Cyfarwyddwr Creadigol g39**, "*Mae'r prosiect yn sefyll fel llwyfan anhygoel ar gyfer lleisiau newydd ac mae'r strwythur, sy'n teithio gyda'r artistiaid yn ogystal â'r gwaith i'r lleoliadau a chymunedau gwahanol, yn ffordd gyffrous a dynamig o gysylltu pobl. Ar gyfer g39, dyma un o'r elfennau hanfodol o'r hyn rydym yn ei wneud, yn cysylltu artistiaid â Chymru ac artistiaid Cymreig â byd celf gyfoes ehangach. Y sgysiau sy'n digwydd yn achlysurol, rhwng y strwythurau ffurfiol sy'n eu galluogi, sy'n adeiladu ac yn cynnal ymarferion artistiaid.*"

Mae gan yr artistiaid, a ddewiswyd o restr hir o bron i 30 o enwebeion, gyfnod o wyth mis i ddatblygu comisiwn newydd sylweddol, gyda chymorth ariannol a churadrol gan Jerwood Arts, cyn i'r daith 12 mis o amgylch y DU gychwyn. Bydd cymorth a arweinir gan gymheiriaid a rhwydweithio ar gyfer y grŵp hefyd yn cael eu hwyluso gan

Jerwood Arts a'r orielau partner ar draws y cyfnodau creu ac arddangos.

Cinzia Mutigli, *Teitl i'w gadarnhau*, 2021. Llun llonydd o'r ffilm. Drwy garedigrwydd yr artist.

Nododd **Tako Taal, artist sy'n arddangos sydd wedi'i lleoli yn Glasgow**, "*Sut ydw i'n teimlo am fod yn rhan o'r prosiect? Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn heriol mewn sawl ffordd. Mae gormod o adegau i alaru amdanynt wedi bod fel ei bod hi'n anodd meddwl am beth i'w ddweud ynglyn â gwneud gwaith newydd - fel dywed Saidiya Hartman, rydym eisiau rhoi diwedd ar y byd fel y mae ar hyn o bryd a dychmygu a chreu rhywbeth newydd. Ni fyddwn yn cael ein twyllo gan yr hen ffurfiau o gynhwysiant rhyddfrydol.*"

Dywedodd **Shenece Oretha, artist sy'n arddangos sydd wedi'i lleoli yn Llundain**, "*Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod a gweithio ochr yn ochr â'r artistiaid eraill. Mae'n braf cael cyfle i wneud gwaith a fydd yn teithio, yn cyrraedd lleoedd a phobl newydd, ac i ddatblygu ein hymarferion wrth weithio gyda'r manau ac mewn sgysiau gyda chymunedau a chyfoedion o bob rhan o'r DU.*"

Yn dilyn yr enwebiadau, gwahoddwyd pob artist i gyflwyno cynnig ar gyfer gwaith newydd cyn y gwnaed detholiad terfynol gan banel a oedd yn cynnwys y cyn-artist Survey Flo Brooks; Harriet Cooper, Pennaeth y Celfyddydau Gweledol; Jerwood Arts; Anthony Shapland, Cyfarwyddwr Creadigol g39; ac Angelica Sule, Cyfarwyddwr Rhaglen, Site Gallery.

Dywedodd **Lilli Geissendorfer, Cyfarwyddwr Jerwood Arts**, “Yn ystod y misoedd hyn o ansicrwydd, mae partneriaethau a chydweithredu wedi bod yn hanfodol yn ein helpu ni i gyd i ddod o hyd i'r ffordd ymlaen. Mae gennym genhadaeth gref a rennir gyda Site Gallery yn Sheffield a g39 yng Nghaerdydd i wrando ar artistiaid a galluogi'r amodau gorau ar gyfer datblygiad artistig, ac mae wedi bod yn wych gweithio gyda nhw i ddewis y deg artist ar gyfer Survey II ac addasu'r prosiect hwn ar gyfer yr amseroedd rydym yn byw ynddynt.”



Dywedodd **Angelica Sule, Cyfarwyddwr Rhaglen Site Gallery**, “Rydym wrth ein boddau i fod yn cydweithredu gyda Jerwood Arts a g39 i gefnogi'r ystod anhygoel o artistiaid yn Survey II, ac i'w harddangos yn Sheffield. Mae Site Gallery wedi cael ei ddisgrifio fel oriel rhedfa ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi artistiaid sy'n dod i'r amlwg (efallai am yr ail dro) drwy eu harfogi a'u grymuso i ddatblygu a chynnal eu hymarfer. Rydym yn llawn cyffro am gysylltu'r artistiaid â'n hartistiaid a'n rhwydweithiau ni yn Sheffield, a dod â thalentau cenedlaethol i'n dinas.

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth i'r wasg neu i wneud cais am ddelweddau cydraniad uchel, cysylltwch â:

Nicola Jeffs, nicola@olearyjeffs.com / 07794 694 754 neu Owen O'Leary
owen@olearyjeffs.com / 07815992658

YNGLŶN Â SURVEY II

Arweinir Survey II gan Jerwood Arts mewn cydweithrediad â g39 a Site Gallery. Mae'n cyflwyno comisiynau newydd gan ddeg artist o bob cwr o'r DU, gan ddarparu cipolwg

unigryw o bryderon a dulliau artistig cyfredol. Wedi'i sefydlu yn 2018, mae'r ail gynhyrchiad hwn yn cyflwyno partneriaethau newydd ac yn adeiladu ar wybodaeth arbenigol a phrofiad Jerwood Arts o weithio gydag artistiaid ar ddechrau eu gyrfa ar draws gwahanol ffurfiau celf. Mae'n defnyddio dull ansefydliadol ar gyfer dethol drwy wahodd artistiaid blaenllaw i enwebu'r artistiaid mwyaf rhagorol ar ddechrau eu gyrfa sy'n gwneud gwaith heddiw. Roedd yr artistiaid sefydledig pellach a oedd yn enwebu yn cynnwys Helen Cammock, Harold Offeh, Joanne Tatham a Tom O'Sullivan, Ciara Phillips, Dan Shipsides, a Barbara Walker.

Cyflwynodd cynhyrchiad cyntaf *Survey* gomisiynau newydd gan Chris Alton, Simeon Barclay, Hazel Brill, Flo Brooks, Emma Cousin, Joe Fletcher Orr, Tom Goddard, Ashley Holmes, Lindsey Mendick, Nicole Morris, Milly Peck, Anna Raczynski, Will Sheridan Jr, Rae-Yen Song a Frank Wasser. Fe'i lanswyd yn Jerwood Arts yn Llundain yn ystod Frieze Week 2018 cyn teithio i g39 yng Nghaerdydd, Bluecoat yn Lerpwl, a BALTIC Centre for Contemporary Art yn Gateshead.

#SurveyII

YNGLŶN Â JERWOOD ARTS

Jerwood Arts yw'r cyllidwr annibynnol arweiniol sy'n ymrwymedig i gefnogi artistiaid, curadwyr a chynhyrchwyr y DU i ddatblygu a ffynnu. Rydym yn galluogi cyfleoedd trawsnewidiol ar gyfer unigolion ar draws gwahanol ffurfiau celf, gan gefnogi gwobrau llawn dychymyg, cymrodoriaethau, rhaglenni, comisiynau a chydweithrediadau.

Rydym yn cyflwyno gwaith newydd ac yn dod â phobl o bob rhan o'r celfyddydau at ei gilydd yn yr orielau yn Jerwood Space, Llundain, yn ogystal â ledled y DU.

@jerwoodarts

YNGLŶN Â SITE GALLERY

Wedi'i arwain gan y Prif Weithredwr Judith Harry a'r Cyfarwyddwr Rhaglen Angelica Sule, mae Site Gallery, lle celf gyfoes Sheffield, yn arbenigo mewn cyfryngau newydd, delweddau symudol a pherfformiad.

Yn arloesi mewn ymarferion a syniadau celf sy'n dod i'r amlwg, mae Site yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithredwyr lleol, rhanbarthol a rhyngwladol i feithrin talent artistig a chefnogi datblygiad celf gyfoes. Mae'n Sefydliad Portffolio Cenedlaethol y Cyngor Celfyddydau gyda chyllid referniw gan Gyngor Dinas Sheffield.

Mae Site Gallery yn gweithio gydag artistiaid ar ddechrau eu gyrfa ac artistiaid sefydledig i gomisiynu gwaith newydd, cynhyrchu sioeau unigol a grŵp, a darparu preswyladau, perfformiadau, digwyddiadau a rhaglenni cymunedol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi cyflwyno artistiaid fel Elizabeth Price (DU), Mike Kelley (UDA), Jeremy Deller (DU), ac ymweliadau cyntaf â'r DU gan Eva a Franco Mattes (Yr Eidal) a Pilvi Takala (Y Ffindir). Mae Site hefyd yn arwain cyfres preswylad pum mlynedd Rhaglen Artistiaid Freelands ar gyfer artistiaid yn y ddinas-ranbarth.

Mae'r Society of Explorers, a ariennir gan y Paul Hamlyn Foundation, yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn yn cefnogi pobl ifanc yn y ddinas i wneud cysylltiadau unigryw ag artistiaid ac ennill sgiliau a dysgu newydd. Yn gweithio'n rhyngwladol yn y blynyddoedd diwethaf, mae

Site Gallery wedi cyflwyno gwaith yn Boston, Busan yn Ne Korea, Sydney, Beijing, Thessaloniki a Basel.

@sitegallery

ABOUT g39

g39 is an artist-run gallery and creative community for the visual arts in Wales, a bridge between artists and audiences. Summed up as informal but professional, at the heart of g39's activities is its relationship with artists. From exhibition to work placements to informal gatherings, initiating peer introductions or realising the most ambitious of solo exhibitions – across this spectrum of relationships our aim is to encourage and enable every person whose ambition it is to pursue a visual art practice.

g39's support programme for artistic practice offering peer critique, artist-curator talks, workshops, seminars, mentoring, professional development and visits. Warp provides a critical and social network for a creative community within and beyond Wales. g39 offers a range of activities featuring artists from a variety of career stages and nationalities. Many artists who have been supported by g39 in the earlier stages of their career have gained significant reputations including James Richards, Heather Phillipson, Megan Broadmeadow, Sean Edwards and Bedwyr Williams. g39 often works in collaboration with other galleries across the world to show Welsh artists abroad, as well as

yn cynnal arddangosfeydd a phrosiectau wedi'u curadu ar y cyd.

@g39cardiff

**JERWOOD
ARTS**

**SITE
GALLERY**

g|39

JERWOOD SPACE